**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**019 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022 [Saesneg yn unig]**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 8 Tachwedd 2022*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Gwneud negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU o dan:

- adran 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi, ac
- adrannau 50(3) a 53(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Fodd bynnag, dim ond y rhannau hynny o'r Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2018 sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Crynodeb**

Mae'r rhannau o'r Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2018 (h.y. rheoliadau 2, 3, 4 a 12) yn cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir fel ei bod

yn gweithredu'n effeithiol mewn cyd-destun domestig. Mae'r diffygion sy'n cael eu cywiro gan reoliadau 2, 3, 4 a 12 yn gymharol fach. Er enghraifft:

- mae cyfeiriadau at 'Aelod-wladwriaethau' yn cael eu newid i gyfeiriadau at 'awdurdod perthnasol' (yr awdurdod perthnasol mewn perthynas â Chymru yw Gweinidogion Cymru);

- mae cyfeiriad at Gyfarwyddeb UE yn cael ei newid i gyfeiriad at ddeddfwriaeth ddomestig gyfatebol (sef Deddf Pwysau a Mesurau 1985);

- mae rheoliad 3(1) o Reoliadau Ardystio Hopys 1979 wedi'i hepgor oherwydd nad oes ei angen mwyach. Roedd rheoliad 3(1) yn darparu y gellid symud hopys a chynhyrchion hopys o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer eu gwerthu yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes angen rheoliad 3(1) mwyach oherwydd Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn nodi nad yw'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 9 Tachwedd 2022 yn rhoi unrhyw ddisgrifiad o'r newidiadau gwirioneddol y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud.

Ceir enghreifftiau gwirioneddol uchod ac, er eu bod yn gymharol fach a thechnegol, efallai y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau o'r Senedd weld enghreifftiau o'r fath yn y datganiad ysgrifenedig.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.